GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A489 (HEOL MAENGWYN, MACHYNLLETH) (GWAHARDD AROS) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros ar ochrau'r darnau o gefnffordd yr A489 Caersŵs i Fachynlleth o'r enw Heol Maengwyn, Machynlleth yn Sir Powys, fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwahanol esemptiadau i'r gwaharddiad.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 12 Ionawr 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â Phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Machynlleth, Heol Maengwyn, Machynlleth, SY20 8DY. Gellir hefyd gael copïau yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at y cyfeiriad neu'r cyfeiriad e-bost isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1494972.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1494972, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 2 Chwefror 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

THE A489 TRUNK ROAD (HEOL MAENGWYN, MACHYNLLETH) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to prohibit waiting on the sides of the lengths of the A489 Caersws to Machynlleth trunk road known as Heol Maengwyn, Machynlleth in the County of Powys, as specified in the Schedule to this Notice. There will be various exemptions to the prohibition.

During a period of 21 days from 12 January 2022, a copy of the proposed Order, together with a Plan and a Statement of Reasons for making the Order, may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Machynlleth Library, Heol Maengwyn, Machynlleth, SY20 8DY. Copies may also be obtained free of charge by writing to the address or email address below quoting reference number qA1494972.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1494972, must be sent by email to Transport.OrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 2 February 2022.

Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, Plan a Datganiad o'r Rhesymau ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd a/neu eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1494972.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darnau o'r gefnffordd lle y gwaherddir aros

1. Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Heol Maengwyn, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Garth hyd at bwynt 95 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

2. Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Heol Maengwyn, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 44 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Forge Road hyd at bwynt 82 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

A copy of this Notice, the Order, Plan and Statement of Reasons can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders and/or obtained in larger print free of charge by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1494972.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

Lengths of trunk road on which waiting is prohibited

1. The length of the north side of the trunk road known as Heol Maengwyn, Machynlleth which extends from a point 45 metres east of the centre point of its junction with Garth Road to a point 95 metres east of said junction.

2. The length of the south side of the trunk road known as Heol Maengwyn, Machynlleth which extends from a point 44 metres east of the centre point of its junction with Forge Road to a point 82 metres east of that said junction.